Cyngor Cymuned
**EGLWYS BACH**
Community Council

**Cofnodion Cyfarfod 04-04-23 – 7.30pm**

**Cyfarfod yn y Neuadd**

| | |
|---|---|
| **Presennol** | Cynghorwyr Wendy Williams (Cadeirydd), John Lloyd Williams, John Emlyn Jones, Geraint Owen, Gwilym Williams, Arthur Williams a Delyth Wynne Lloyd (Clerc)<br>Mari Wynn Tudur, Uwch Hwylysudd Tai Gwledig, Grwp Cynefin<br>Ian Gillespie, Tai Gogledd Cymru<br>Elin Harlow, PCSO, Heddlu Gogledd Cymru |
| **Ymddiheuriadau** | Cynghorwyr Gwyn Jones, Austin Roberts, Ceri Leeder a Gwenan Shuttleworth |

1. **CROESO**

   Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorwyr i'r cyfarfod.

2. **YMDDIHEURIADAU**

   Noder uchod.

3. **DATGAN DIDDORDEB**

   Dim.

4. **COFNODION** – Cadarnhau ac arwyddo cofnodion y cyfarfod diwethaf (07/03/23).

   Cynigwyd cofnodion 07/03/23 yn gywir gan Cyng John Emlyn ac eiliwyd gan Cyng Geraint.

5. **MATERION YN CODI**

   - **Grwp Cynefin – ymgysylltu cymunedol:**

     Ymunodd Mari Wynn Tudur, Uwch Hwylusydd Tai Gwledig, Grŵp Cynefin ac Ian Gillespie, Tai Gogledd Cymru â'r cyfarfod. Eglurodd y ddau bod Tai Gogledd Cymru wedi gofyn i Grŵp Cynefin wneud arolwg o dai yn ardal Eglwys Bach. Byddant yn gofyn i drigolion gwblhau arolwg i nodi eu hanghenion tai a gofyn am eu barn ar dai presennol yn yr ardal hon. Y diwrnod cau ar gyfer yr arolwg ydy 28 Ebrill.

     Cynhelir Diwrnod Agored ar 24 Ebrill rhwng 4.30-6.30pm yn Neuadd y Pentref ac mae'n gyfle i bobl lleol ddod a gofyn cwestiynau. Bydd Sarth (Single Acces Route to Housing) sy'n gyfrifol am dai cymdeithasol hefyd yno. Mae'n bwysig bod pobl leol yn llenwi'r ffurflen adborth. Yna bydd adroddiad cynhwysfawr o anghenion tai yn cael ei ysgrifennu ar gyfer yr ardal.

- **Swyddog Cefnogi Cymunedol – ymgysylltu cymunedol:**

  Ymunodd PCSO Elin Harlow, Heddlu Gogledd Cymru â'r cyfarfod. Esboniodd Elin mai dim ond 2 alwad ffôn dderbyniodd hi ynglŷn ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a dywedodd ei bod hi'n bwysig bod trigolion yn nodi unrhyw ymddygiad gwrthgymdeithasol trwy ffonio 111 neu ar-lein. Fe ofynodd y Cynghorwyr i Elin a fyddai'n bosib cael mwy o 'bresenoldeb heddlu' yn y pentref. Trafodwyd goryrru ar Ffordd Ty Gwyn hefyd, a dywedodd Elin y gallai un o'r PC's wirio goryrru ar y ffordd gan ddefnyddio gwn cyflymder.

- **Y Coroni – Mercher y Wawr/Sefydliad y Merched – cyfraniad:**

  Bu'r Cynghorwyr yn trafod yr uchod gan benderfynu y byddai angen i unrhyw gymdeithas anfon llythyr at y Clerc yn y dyfodol i ofyn am gyfraniad ac esboniad beth fyddai'r cyfraniad yn cael ei wario arno gan fod ei angen ar gofnodion y Cyngor.

- **Awdit 20/21 a 21/22:**

  Y Clerc yn disgwyl am gopi o awdit 2021/22 gan y Cyfrifydd Mewnol.

6. **CYNLLUNIO**

- **Cyfeirnod: 0/50662**

  Ymgeisydd: Glynwen Davies
  Cynllun: Trosi ty allan cerrig presennol mewn i annedd
  Safle: Fox Hall, Ffordd Gyffylog, Eglwys Bach, Colwyn Bay LL28 5SD

  Dyddiad cau: 25/04/2023

  Dim sylwadau.

7. **ADRODDIAD ARIANNOL**

Cyfredol - £1,847.51 (angen talu £50.00 i Merched y Wawr)
Angladdau - £437.10
Cadw - £7,101.40

**Taliadau Ar-lein:**
**Cyfredol:**
- Delyth Wynne Lloyd (Clerc) - £200.00
- M & S Jones (Glanhau Toiledau – 6 Mawrth-27 Mawrth 23) - £400.00
- HMRC (Ionawr/Chwefror/Mawrth 2023) - £150.00

**Angladdau:**
Dim.

8. **GOHEBIAETH**

- **Llythyr: Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Conwy - Llythyr o ddiolch:**
  Er Gwybodaeth.

- **Llythyr: Eisteddfod Llangollen – cyfraniad:**
  Penderfynwyd peidio rhoi cyfraniad gan nad achos lleol:

- **E-Bost: Hosbis Dewi Sant – sgwrs am ddim:**
  Er Gwybodaeth.

9. **UNRHYW FATER ARALL**

- Bocs ar y pafin tu allan i Preswylfa yn achosi rhwystr. Y Clerc i gysylltu gyda ERF.
- Y drws yn y fynwent angen ei baentio. Cynigiodd Cyng John Lloyd gael paent a'i baentio. Diolchodd y Cynghorwyr iddo.
- Henblas – dwr yn hel ar y corneli eto, angen clirio y 2 ddraen a nodi bod y draeniau yn y lle anghywir.

10. **DYDDIADAU'R CYFARFODYDD NESAF**

02/05/23
06/06/23
04/07/23
05/09/23
03/10/23
07/11/23
05/12/23

Daeth y cyfarfod i ben am 9.00 o'r gloch.